Tasg 2 > Gwrando a deall

- Gwrandewch unwaith eto ar y trac sain a phenderfynwch a ydy'r brawddegau isod yn wir ai peidio.
- Mae un tabl yma ar Gwenda Owen ac un arall ar gyfer Geinor Haf.
- Rhowch groes yn y golofn briodol.

Gwenda Owen

	Gwir	Gau
Mae Gwenda Owen yn rhedeg salon yng Nghwm Rhondda.		
Mae Gwenda yn un o bedair o ferched.		
Roedd Gwenda yn aelod o grŵp pop o'r enw 'Seiniau'r Gwendraeth'.		
Roedd y grŵp pop 'Seiniau'r Gwendraeth' yn mynd o amgylch Sir Ceredigion yn canu.		
Mae Gwenda wedi ennill 'Cân i Gymru' ddwy waith.		
Enillodd Gwenda 'Cân i Gymru' yn y flwyddyn 1995.		
Yn ôl Gwenda, caneuon cymhleth sy'n ennill 'Cân i Gymru'.		
Enw cân fuddugol Gwenda ar 'Cân i Gymru' oedd 'Cân i'r Ynys Werdd'.		
Roedd Gwenda yn genfigennus iawn o Geinor pan oedd hi ar lwyfan 'Cân i Gymru' yn 2001.		
Mae Gwenda wedi ymddangos ar y rhaglen 'Noson Lawen' fwy nag unwaith.		

Geinor Haf

	Gwir	Gau
Roedd Geinor Haf yn canu mewn Eisteddfodau ac yn yr Ysgol Sul pan oedd hi'n blentyn.		
Dechreuodd Geinor ganu pan oedd hi'n 10 oed.		
Mae gan Geinor y ddawn i ysgrifennu caneuon.		
Enillodd Geinor 'Cân i Gymru' yn 2005.		
Mae Geinor yn troi at Emlyn Doyle pan fydd hi am ysgrifennu cân.		
Enw cân fuddugol Geinor ar 'Cân i Gymru' oedd 'Dagrau Ddoe'.		
Roedd y gân 'Dagrau Ddoe' yn sôn am hapusrwydd plentyndod.		
Roedd Geinor yn "browd" iawn pan enillodd ei mam 'Cân i Gymru' yn 1995.		
Gwyliodd Geinor 'Cân i Gymru 1995' yn nhŷ ei ffrindiau.		
Gobaith Geinor ar gyfer y dyfodol ydy canu mewn cyngherddau a rhyddhau CDs newydd.		